Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Adroddiad Blynyddol y Fforwm Derbyn ar gyfer 2015 - 2016

Awdurdod Derbyn: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgrifenyddes y Fforwm: Mandy Jones, cyswllt Amanda.Jones@bridgend.gov.uk; ffôn 01656 642629

Cyfeiriad: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y Gyfarwyddiaeth Plant, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB

Aelodaeth a phresenoldeb y Fforwm

Enw	Swydd	Amser yn Aelod o'r Fforwm	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Mrs A Keller	Pennaeth, Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath	0 blwyddyn	**S/VA**
2. Mr R Davies	Rheolwr Grŵp Busnes, Strategaeth a Pherfformiad (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) **Cadeirydd ers canol mis Hydref 2014.**	1 flwyddyn	**LA**
3. Mrs S Davies	Pennaeth, Ysgol Iau Llangewydd	0 blwyddyn	**S/CV**
4. Mr J Tarran	Pennaeth, Ysgol Gynradd Eglwys Cymru yr Archddiacon John Lewis **Is-gadeirydd ers canol mis Hydref 2014**	2 flynedd	**S/VA**
5. Y Cyng. H David	Yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc / Dirprwy Arweinydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr)	4 blynedd	
6. Mrs M Treharne	Swyddog Cymorth Ysgolion, Cymorth Dysgwyr (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) **Yn aelod ers canol mis Mawrth 2015**	1 flwyddyn	**LA**
7. Mrs R Dixon	Pennaeth, Ysgol Y Ferch O'r Sger	7* mlynedd	**S/CV**
8. Mr W Bond	Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Arbennig Heronsbridge	8* mlynedd	**PG**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

*Aelodau wedi'u henwebu drwy awdurdod priodol yn unol â gofynion aelodaeth graidd, o dan adran 5 o Reoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003.

Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd		
Aelodau a Enwebwyd gan	**Aelodaeth Graidd**	**Acronym**
ALl – unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	**LA, LA/SEN, LA/LAC**
Cynrychiolwyr Esgobaethol o'r Eglwys yng Nghymru	1 i 3	**CIW**
Cynrychiolwyr Esgobaethol Catholig	1 i 3	**RC**
Ysgolion – cymunedol a gwirfoddol a reolir	1 i 3	**S/CV**
Ysgolion – sylfaen	1 i 3	**S/F**
Ysgolion – gwirfoddol a gynorthwyir	1 i 3	**S/VA**
Cynrychiolwyr rhiant lywodraethwyr	1 i 3	**PG**
Cynrychiolwyr o'r gymuned leol	Hyd at 3	**L/COM**

Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	**Nifer Aelodau'r Fforwm a oedd yn bresennol – fesul categori**
Cyfarfod cyntaf	**19/10/15**	**7 (3 x Cynrychiolydd o'r ALl, 3 x Cynrychiolydd o Ysgolion, 1 x Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr)**
Ail gyfarfod	**10/03/16**	**6 (3 x Cynrychiolydd o'r ALl, 2 x Cynrychiolydd o Ysgolion, 1 x Cynrychiolydd o'r Llywodraethwyr)**
Trydydd cyfarfod	**Amherthnasol**	

Cadarnhewch pa un a yw'r awdurdodau derbyn yn ardal y fforwm wedi cwblhau'r broses ymgynghori a phenderfynu ar y trefniadau derbyn o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol gan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn honno].

Os oes unrhyw awdurdod derbyn nad yw wedi bodloni'r amserlenni, rhowch fanylion yma.

Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi'u gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Yr oedd pob awdurdod derbyn ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cwblhau'r ymgynghoriad a'r penderfyniadau ar y trefniadau derbyn ar gyfer 2015-16 o fewn yr amserlen a nodwyd yn y Rheoliadau.

Ni welwyd unrhyw ddogfennau ymgynghori gan awdurdodau derbyn eraill nad ydynt yn Awdurdodau Lleol cyfagos.

Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u rhoi ar waith er budd plant sy'n agored i niwed?
A yw'r rhain wedi bod yn llwyddiannus?
Pa drefniadau eraill ydych chi wedi'u nodi i gefnogi'r plant hyn?

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, caiff plant sy'n derbyn gofal (LAC) eu blaenoriaethu i gael eu derbyn i'w hysgol o ddewis. Parhaodd y tîm Cymorth Dysgu i weithio'n agos â'r Cydgysylltydd Addysg LAC i sicrhau bod disgybl LAC yn wynebu cyn lleied â phosibl o oedi wrth gael mynediad at addysg.

Parhaodd y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i'r Teulu i wneud pob ymdrech i alluogi plant i gadw eu lle yn yr ysgol, pan fo hynny'n ymarferol, yn dilyn penderfyniad i'r plentyn dderbyn gofal neu ar ôl iddo newid lleoliad, gyda'r nod o gyfyngu nifer y newidiadau / derbyniadau i ysgol a chynnal cysondeb yn addysg y plentyn. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16, adroddodd yr ALl gynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal (ar 31 Mawrth) a oedd wedi gorfod newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd oherwydd trefniadau pontio. Roedd hyn yn adlewyrchu'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud gan y Bwrdd LAC a Sefydlogrwydd i ddychwelyd plant/pobl ifanc i ddarparwyr gofal mewnol a gwella sefydlogrwydd, sy'n gallu arwain at fwy o symud rhwng lleoliadau a mwy o newid ysgol. Roedd y cynnydd hefyd yn adlewyrchu dewisiadau gan rieni a weithredwyd, a symudiadau o fewn yr awdurdod lleol i gyflawni lleoliadau priodol i blant sy'n dangos ymddygiad heriol. Hefyd, cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth cludiant ysgol yn ôl disgresiwn i blant sy'n derbyn gofal yn ystod hydref 2015, a nododd hwn blant mewn lleoliadau hirdymor yr ystyriwyd y

byddai'n fuddiol iddyn nhw gael eu symud i ysgol nes at eu lleoliad hirdymor fel eu bod yn barod i bontio i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Ystyriwyd pob achos yn unigol er mwyn sicrhau mai symud oedd y cam mwyaf buddiol i'r plentyn.

Darparodd yr ALl gludiant ysgol i blant sy'n derbyn gofal, ar sail yn ôl disgresiwn fesul achos, yn dibynnu ar amgylchiadau.

Mae'r broses dderbyn ganolog yn caniatáu mwy o reolaeth a monitro o ran derbyn plant sy'n agored i niwed. Gall plant ag ymddygiad heriol fod ymhlith y rhai mwyaf anodd eu lleoli. Parhaodd Panel Mynediad Teg (FAP) yr ALl i gwrdd bob 6 wythnos i ddatblygu'r strategaeth a thrafod gwaharddiadau a derbyniadau mewn Ysgolion Cynradd, Uwchradd, Ysgolion Arbennig a Darpariaeth Amgen Y Bont ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Prif amcanion y FAP yw:

- gweithio'n gydweithredol er budd disgyblion;
- goruchwylio gwaharddiadau a thrafod derbyniadau;
- datblygu a monitro symudiadau a reolir;
- hyrwyddo rhannu arferion da a datblygu cysondeb; a
- datblygu dull cyson o leihau nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r FAP yn adolygu pob achos unigol lle y gallai fod anawsterau o ran lleoli'r disgybl ac yn pennu ffordd briodol ymlaen.

Yn ogystal â hyn, mae 2 banel derbyniadau penodol ar waith yn Narpariaeth Amgen y Bont:

- y panel CAMHS (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) a Meddygol Cymhleth, sy'n cwrdd bob mis; a'r
- Fforwm Lleoli Disgyblion, sy'n cwrdd bob mis ac yn ystyried disgyblion a atgyfeiriwyd ar gyfer lleoliad arbenigol yn ein darpariaethau Cyflawni am Oes (A4L) a Llwybrau Cadarnhaol.

Pa mor llwyddiannus yw'r gweithdrefnau derbyn yn ystod y flwyddyn y cytunwyd arnynt?
Faint o blant sydd wedi'u derbyn i bob ysgol o dan y gweithdrefnau?
A ydych chi wedi gweld cynnydd yn nifer y plant a dderbynnir yn ystod y flwyddyn? Os felly, pa gamau sydd wedi'u nodi i fynd i'r afael â'r mater hwn?

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2014-15, proseswyd 936 o dderbyniadau yn ystod y flwyddyn gan yr ALl (trosglwyddiadau) (cynnydd o 21%); 631 o geisiadau yn y sector cynradd a 275 o geisiadau yn y sector uwchradd. O'r rhain, gwrthodwyd 103 o geisiadau yn y sector cynradd a 57 o geisiadau yn y sector uwchradd.

O gymharu hyn â'r flwyddyn academaidd 2015-16, proseswyd 938 o dderbyniadau yn ystod y flwyddyn gan dîm derbyn canolog yr ALl; 690 o geisiadau yn y sector cynradd a 248 o geisiadau yn y sector uwchradd. O'r rhain, gwrthodwyd 94 o geisiadau yn y sector cynradd a 64 o geisiadau yn y sector uwchradd.

Mae gan yr ALl broses gadarn a chaiff pob cais ei ystyried yn erbyn nifer y derbyniadau a gyhoeddwyd gan yr ysgol a threfniadaeth bresennol dosbarthiadau.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2014-15, nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i dderbyn disgybl i mewn i ysgol brif ffrwd oedd 8 diwrnod yn y sector cynradd ac 13.27 o ddiwrnodau yn y sector uwchradd.

O gymharu hyn â'r flwyddyn academaidd 2015-16, nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i dderbyn disgybl i ysgol brif ffrwd oedd 6.88 diwrnod yn y sector cynradd ac 13.14 o ddiwrnodau yn y sector uwchradd. Yn gyffredinol, nifer y diwrnodau cyfartalog a gymerwyd i dderbyn pob disgybl i'r sector cynradd ac uwchradd oedd 8.40 diwrnod.

Pa faterion derbyn allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer yr ardal?
Beth yw'r rhain a sut mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â hwy?

Yn ystod 2015/16, y prif faterion a ystyriwyd ac a benderfynwyd gan y Fforwm Derbyn oedd:

- **Hyrwyddo trefniadau derbyn effeithiol i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed –** cafodd y Fforwm ei ddiweddaru am waith y Panel Mynediad Teg a nodwyd ei effaith o ran cael lleoedd i ddisgyblion 'anodd eu lleoli'.

- **Proffil Asesu Plant Agored i Niwed (VAP) –** cafodd y Fforwm wybodaeth gychwynnol ar y VAP a sut mae'n cael ei ddefnyddio i nodi'n gynnar y disgyblion a allai elwa ar gymorth ac ymyraethau ychwanegol wedi'u teilwra.

- **Llyfryn Dechrau Ysgol 2016-17** – cymeradwyodd y Fforwm y cynnig i roi'r llyfryn ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a dosbarthu copïau wedi'u hargraffu yn ôl y gofyn.

- **Polisi Derbyn Drafft 2017-18 –** ystyriodd y Fforwm y polisi drafft, gan nodi'r ymatebion a ddaeth i law a chymeradwyo'r polisi

terfynol.

- **Adroddiad Blynyddol –** Derbyniodd y Fforwm yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15.

- **Dyddiadau Cyffredin -** cafodd y Fforwm yr amserlen dderbyn ddrafft ar gyfer derbyniadau 2017-18 a nododd y byddai hon yn cael ei dosbarthu i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.

- **Derbyniadau ar-lein** – diweddarwyd y Fforwm ar statws cynlluniau ar gyfer datblygu system dderbyn ar-lein. Nodwyd nad oedd y dewis o ddatblygu TGCh mewnol yn ymarferol mwyach a bod y posibilrwydd o brynu system trydydd parti yn cael ei archwilio.

- **Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg** – cafodd y Fforwm wybod bod Aelodau'r Cabinet wedi cymeradwyo'r Polisi Teithio newydd i Ddysgwyr a bydd newidiadau yn dod i rym o fis Medi 2016 ymlaen. Cafodd y Fforwm grynodeb o'r newidiadau.

- **Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria -** nododd y Fforwm y byddai'r ALl yn gwbl ymrwymedig i'r rhaglen i adsefydlu ac ail-ymgartrefu ffoaduriaid o Syria sy'n agored i niwed ym Mhen-y-bont ar Ogwr gan olygu y byddai plant oed ysgol yn cael eu lleoli mewn sefydliad addysg priodol o ran crefydd a rhwystrau iaith posibl.

Pa ddulliau mae'r Fforwm wedi'u defnyddio i ledaenu unrhyw gyngor neu benderfyniadau y mae wedi'i wneud?

Rhannwyd ymatebion y Fforwm i gynigion/materion gyda rhanddeiliaid allweddol, yn arbennig, ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau derbyn eraill trwy ddulliau cyfathrebu arferol yr ALl.

Caiff Cylch Gorchwyl y Fforwm, cofnodion ei gyfarfodydd a'i adroddiadau blynyddol eu cyhoeddi ar dudalen Fforwm Derbyn i Ysgolion penodedig gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar Wefan yr Awdurdod Derbyn:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Cyhoeddwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ym mis Hydref 2015 ar dudalen Fforwm Derbyn i Ysgolion gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2016, ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo. Bydd cofnodion cyfarfod mis Mawrth 2016 yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod mis Rhagfyr 2016.

http://www1.bridgend.gov.uk/services/schools/school-admissions-forum.aspx

http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/schools/fforwm-derbyn-i-ysgolion.aspx

Llofnod: Mandy Jones (Ysgrifenyddes y Fforwm)

Dyddiad:

Dylech ddychwelyd yr adroddiad terfynol erbyn 30 Tachwedd 2016 i:

SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

Derbyniadau i Ysgolion ac Apeliadau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

ATODIAD A

Derbyniadau i Ysgolion ac Apeliadau

Yn y cylch derbyn ar gyfer 2015/16, ymdriniodd y cyngor â 3,213 o geisiadau derbyn. Dangosir dadansoddiad isod ar gyfer pob ysgol.

Ysgol	Nifer y Derbyniadau a Gyhoeddwyd	Nifer y Ceisiadau	Nifer y Ceisiadau Llwyddiannus	Nifer yr Apeliadau	Nifer yr LA Apeliadau Llwyddiannus
Cynradd					
Ysgol Gynradd Abercerdin	30	31	31	0	0
Ysgol Gynradd Afon-y-Felin	15	10	10	0	0
Ysgol Eglwys Cymru Archddiacon John Lewis	30	9	9	0	0
Ysgol Gynradd Betws	30	26	26	0	0
Ysgol Gynradd Blaengarw	24	24	24	0	0
Ysgol Gynradd Bracla	45	41	41	0	0
Ysgol Gynradd Bryncethin	30	35	35	0	0
Ysgol Gynradd Brynmenyn	22	25	25	0	0
Ysgol Fabanod Bryntirion	40	27	27	0	0
Ysgol Gynradd Caerau	45	41	41	0	0
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	20	13	13	0	0
Ysgol Fabanod Cefn Glas	66	58	58	0	0
Ysgol Gynradd Coety	30	45	45	0	0
Ysgol Gynradd Corneli	46	46	46	0	0
Ysgol Gynradd Llangrallo	12	13	13	0	0
Ysgol Gynradd Croesty	30	30	30	1	1
Ysgol Gynradd Cwmfelin	30	23	23	0	0
Ysgol Gynradd Ffaldau	27	10	10	0	0
Ysgol Gynradd Garth	30	32	32	0	0
Ysgol Gynradd Llidiard	60	41	41	0	0
Ysgol Iau Llangewydd	90	63	63	0	0
Ysgol Gynradd Llangynwyd	11	8	8	0	0
Ysgol Gynradd Maes-yr-Haul	69	69	69	0	0

Ysgol Fabanod Mynydd Cynffig	49	56	56	0	0
Ysgol Iau Mynydd Cynffig	46	41	41	0	0
Ysgol Gynradd Nantyffyllon	40	22	22	0	0
Ysgol Gynradd Nantymoel	30	20	20	0	0
Ysgol Gynradd Newton	33	24	24	0	0
Ysgol Gynradd Notais	60	58	58	0	0
Ysgol Gynradd Cwm Ogwr	53	50	50	0	0
Ysgol Gynradd Oldcastle	50	54	54	0	0
Ysgol Gynradd Pencoed	70	75	75	0	0
Ysgol Gynradd Penybont	45	43	43	0	0
Ysgol Gynradd Eglwys Cymru Penyfai	30	36	36	0	0
Ysgol Gynradd y Pîl	30	29	29	0	0
Ysgol Gynradd Plasnewydd	45	34	34	0	0
Ysgol Gynradd Porthcawl	25	29	29	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	30	28	28	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Patrig	25	32	32	0	0
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Robert	22	22	22	0	0
Ysgol Gynradd Tondu	42	30	30	0	0
Ysgol Gynradd Trelales	30	30	30	0	0
Ysgol Gynradd Tremaen	65	76	76	0	0
Ysgol Gynradd Tynyrheol	10	8	8	0	0
Ysgol Gynradd West Park	55	54	54	0	0
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	54	65	65	0	0
Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Garw	30	32	32	0	0
Ysgol Gynradd Gymraeg Cynwyd Sant	45	48	48	0	0
Ysgol Y Ferch o'r Sger	33	35	35	0	0
Cyfanswm		**1751**	**1751**	**1**	**1**
<u>Cyfun</u>					
Ysgol Gyfun Gatholig yr Archesgob McGrath	131	138	138	7	0
Ysgol Gyfun Brynteg	333	224	224	0	0
Ysgol Gyfun Bryntirion	210	168	168	0	0

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Coleg Cymunedol Y Dderwen	276	183	183	0	0
Ysgol Gyfun Cynffig	180	112	112	0	0
Ysgol Gyfun Maesteg	228	204	204	0	0
Ysgol Gyfun Pencoed	214	136	136	0	0
Ysgol Gyfun Porthcawl	246	186	186	0	0
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd	165	111	111	0	0
Cyfanswm		**1462**	**1462**	**7**	**0**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

ATODIAD B

Nifer y Trosglwyddiadau yn ystod 2015-16 fesul Ysgol Gynradd ac Uwchradd

Cynradd	Nifer y Ceisiadau	Nifer y Ceisiadau (NFA Cynradd)	Nifer y Ceisiadau (NFA Cyfun)
Ysgol Gynradd Abercerdin	3	3	
Ysgol Gynradd Afon y Felin	13	1	
Ysgol Gynradd Betws	14	2	
Ysgol Gynradd Blaengarw	5		
Ysgol Gynradd Bracla	22	7	
Ysgol Gynradd Bryncethin	17	3	
Ysgol Gynradd Brynmenyn	14		
Ysgol Fabanod Bryntirion	6		
Ysgol Gynradd Caerau	10		
Ysgol Gynradd Cefn Cribwr	16	1	
Ysgol Fabanod Cefn Glas	4	1	
Ysgol Gynradd Coety	70	7	
Ysgol Gynradd Corneli	8		
Ysgol Gynradd Llangrallo	21	4	
Ysgol Gynradd Croesty	11	1	
Ysgol Gynradd Cwmfelin	7		
Ysgol Gynradd Ffaldau	6	1	
Ysgol Gynradd Garth	6		
Ysgol Gynradd Llidiard	27	1	
Ysgol Iau Llangewydd	16		
Ysgol Gynradd Llangynwyd	7		
Ysgol Gynradd Maes yr Haul	38	10	
Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig	35	2	
Ysgol Gynradd Nantyffyllon	4	2	
Ysgol Gynradd Nantymoel	6		
Ysgol Gynradd Newton	7		
Ysgol Gynradd Notais	27	5	

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Ysgol Gynradd Cwm Ogwr	34	3	
Ysgol Gynradd Oldcastle	28	9	
Ysgol Gynradd Pencoed	29	1	
Ysgol Gynradd Penybont	26	11	
Ysgol Gynradd Eglwys Cymru Penyfai	21	4	
Ysgol Gynradd y Pîl	12	1	
Ysgol Gynradd Plasnewydd	25	4	
Ysgol Gynradd Porthcawl	4		
Ysgol Gynradd Tondu	18	3	
Ysgol Gynradd Trelales	7	5	
Ysgol Gynradd Tremaen	29		
Ysgol Gynradd Tynyrheol	6		
Ysgol Gynradd West Park	14	1	
Ysgol Gymraeg Bro Ogwr	3		
YGG Cwm Garw	2		
YGG Cynwyd Sant	8		
Ysgol y Ferch O'r Sger	4	1	
Cyfanswm	**690**	**94**	

Cyfun		
Ysgol Gyfun Brynteg	32	7
Ysgol Gyfun Bryntirion	41	6
Ysgol Gyfun Cynffig	17	5
Ysgol Gyfun Maesteg	33	8
Ysgol Gyfun Pencoed	50	11
Ysgol Gyfun Porthcawl	45	15
Y Dderwen	30	10
YGG Llangynwyd	0	
Cyfanswm	**248**	**62**